



Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor

16 Mai 2016

Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 16 Mai 2016 yn Adeilad Gwylwyr y Glannau, Llandwrog

Yn bresennol- 7 aelod

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones, Y Fron; Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Robert Jones, Y Groeslon; Bryn Williams, Carmel; Gerwyn Owen, Y Groeslon; Dyfed Williams, Llandwrog; Robert Silyn Jones, Y Groeslon a'r Clerc.

16-05-01 **1 Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd am 8.00 o'r gloch, yn dilyn y cyfarfod blynyddol.

16-05-02 **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr David Mark Lewis, Y Fron; Emyr Peris Hughes, Y Groeslon; Gethin Thomas, Llandwrog; Hywel J Owen

16-05-03 **3 Datgan Buddiant neu Buddiant sydd yn Rhagfarnu**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

16-05-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (18 Ebrill 2016)**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cymdeithas y Porwyr

16-05-05 **Giât i'r Mynydd ger Siop Doris**

Adroddwyd fod y Porwyr wedi penderfynu atgyweirio'r giât bresennol, yn hytrach na phrynu giât o'r newydd.

BW - ddim yn hapus fod y porwyr yn atgyweirio'r giât bresennol, byddai giât newydd, gyda chlicied i farchogwyr, wedi bod yn well.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan mai cyfraniad yn unig sydd wedi cael ei gynnig gan y Cyngor a mater i'r Porwyr ydi penderfynu ar y math o giât.

16-05-06 **Cyd-weithio**

Gweler Rhaglen Mai 2016

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

16-05-07 **Tan-y-Foel Mawr, Y Fron**

Adroddwyd fod y Clerc wedi anfon llythyrau i Gyngor Gwynedd

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro'r sefyllfa.

16-05-08 **Cynllun Gridiau**

Gweler Rhaglen 16 Mai 2016

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

16-05-09 **Biniau Brown, Carmel**

Adroddwyd fod y Cyngor Gwynedd wedi codi archeb i gyflawni'r gwaith.

Penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd o'r sefyllfa.

16-05-10 **Goryrru Pentrefi**

Trafodwyd ymateb Cyngor Gwynedd ar pryderon y Cyngor am or-yrru yn y pentrefi yn arbennig lawr ger Cae Sarn gyda cerbydau yn gwibio lawr o Carmel i Groeslon.

Aelodau ddim yn awyddus i ariannu arwyddion electroneg oherwydd costau o rhwng £1500 a £3000 heb gynnwys costau cynnal.

Sylwadau Aelodau-

Cyng. AWJ – tawelyddion ddim yn gweithio yn y Groeslon, waeth bynnag yr hynny y dywedir gan CG.

Arwyddion yn gostus ac mae angen arwyddion mewn sawl lleoliad yn y gymuned.

Cyng. DW – arwyddion fel sydd yn ardal Ganllwyd yn effeithiol dros ben. Cwestiwn os yn gyfreithiol fodd bynnag.

Cyng BW – cerbydau heddlu wedi ei gweld yn ardal Carmel a Fron gyda'r nosweithiau ar sawl achlysur.

Cyng. GO – cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal yn ddiweddar gyda'r heddlu a trigolion Groeslon, hyn efallai yn esbonio sylwadau BW.

Penderfynwyd dod a pryderon a cwynion ymlaen i'r heddlu yn cyfarfod mis Mehefin.

16-05-11 **Wal Bryn'rodyn**

Adroddwyd gan y Clerc nad oedd Crawfords wedi ymateb i lythyr y Cyngor i wrthod y cynnig cyntaf.

Clerc wedi cysylltu gyda'r cwmni ac addawyd ymateb erbyn y cyfarfod hwn, ond ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth ganddynt.

Yn y cyfamser mynegwyd pryderon gan rhai aelodau ynglŷn â'r sefyllfa yn y fynwent. Adroddwyd fod sawl trigolyn wedi cwyno.

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu ar frys i gael contractwr ar y safle i glirio'r cerrig a'r cerrig capio.

Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus cychwyn ar y gwaith i godi wal newydd a ffens er nad ydi'r yswiriant wedi ei sortio. Awgrymwyd gofyn am bris gan Arwyn Davies (wal) a Geraint Jones (ffens)

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Fod y Clerc yn trefnu i Meirion Davies glirio'r rwbel o'r fynwent fel mater o frys.

ii) Fod y Clerc yn gofyn i Arwyn Davies a Geraint Jones am bris i godi wal a ffens newydd

iii) Fod y Cyngor yn rhoi hawl dirprwyedig i'r Clerc, Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd Pwyllgor

Cyllid a Chadeirydd Pwyllgor Mynwentydd i dderbyn y prisiau

16-05-12 **Caeau Pêl-droed**

Adroddwyd gan y Clerc fod y giât newydd wedi ei osod gan Meirion Davies. Roedd anfoneb wedi cyrraedd am £400. Bydd y Cyngor hwn felly yn anfonebu Cyngor Gwynedd am yr un swm.

Trafodwyd y gwerthiant.

Adroddwyd gan y Clerc nad oedd Cyngor Gwynedd wedi cysylltu ers y cyfarfod diwethaf.

Carmel - Disgwyl addasid y ffurflenni TP1 fel nad oes gan y Cyngor hwn gyfrifoldeb am ffiniau'r tai.

Y Fron - disgwyl addasiad fel nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am y llwybr troed.

Mynegodd Cyng. Dyfed Williams ei bryderon ynglŷn â ffiniau'r tai, yn arbennig gan fod wal yr hen Bost mewn cyflwr peryglus a bod Cyngor Gwynedd wedi ffensio tamaid o'r cae i warchod defnyddwyr rhag y peryglon. Awgrymodd i'r Cyngor dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan ein cyfreithiwr Gareth Griffith unwaith y daw'r ffurflenni diwygiedig i law.

Penderfynwyd nodi pryderon yr aelod a gweithredu fel bo'r angen unwaith y daw'r ffurflenni TP1 i law.

16-05-13 **Clwt Foty**

Mater wedi codi gan Cyng. Bryn Williams

Mynegwyd pryder fod yr ardal hon yn flêr, a bod pobol wedi cwyno am y llanast.

Cerbydau a darnau cerbydau ar wasgar ar hyd y comin a phlastigion ar hyd y lle gan ffermwyr ydi'r prif gwynion. Methu dallt sut fod y sefyllfa wedi cael ei ganiatáu am gyn hired.

Sylwadau Aelodau

Cyng. Gerwyn Owen - yn cefnogi'r syniad 100%

Cyng. Robert Silyn Jones - awgrymu i'r Cyngor bwylo cyn ymrwymo arian gan mai megis cychwyn mae'r flwyddyn ariannol newydd

Cyng. Gwyn Owen Jones – cytuno gyda RSJ fod angen blaenoriaethu gwariant

Cyng. Dyfed Williams – angen i'r Cyngor ystyried system sgorio wrth flaenoriaethu

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Dod ar fater i sylw Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd ar Adran Rheoleiddio

ii) Cysylltu gyda Thir y Goron (perchnogion y tir) gan ddod ar fater i'w sylw.

16-05-14 **6 Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 15 Mawrth 2016**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

7 Materion yn codi o'r cofnodion -

16-05-15 **Trefniadau Archwilio Cyfrifon 2015-16**

Penderfynwyd ay y canlynol.

i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth uchod.

ii) Fod y Cyngor yn nodi pryderon y Clerc ac yn derbyn fod y gwaith o ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdano yn cynyddu llwyth gwaith y Clerc.

iii) Fod y Cyngor yn penodi Mr John Dryhurst Roberts fel Archwilydd Mewnol i archwilio cyfrifon 2015-16 y Cyngor.

16-05-16 **Cyfrifon Terfynol 2015-16**

Crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn -

Arian yn y Banc ar 31 Mawrth 2016	(£14,061.59)
Llai Sieciau heb eu cyflwyno	£2,449.40

Incwm yn ddyledus	(£1,481.60)
Credydwy	£831.20
Cyfanswm Adnoddau ar gael	(£12,262.59)

Cronfeydd y Cyngor ar 31 Mawrth 2016	
Arian Wrth Gefn	(£5,000.00)
Tanwariant Wedi Ei Glustnodi Dinas Dinlle	(£5,000.00)
Tanwariant Heb Ymrwymiad	(£2,262.59)
Cyfanswm y Cronfeydd	(£12,262.59)

Penderfynwyd ar y canlynolrgymhelliad i'r Cyngor.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth o'r balansau fel y nodir uchod.**
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb cyfrifon 2015-16**
- iii) Fod y Cyngor yn cyflwyno'r cyfrifon i'r Archwilydd Mewnol**

16-05-17 **Rheolau Sefydlog**

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac yn ymddiried yn y Pwyllgor i adolygu'r Rheolau Ariannol.

16-04-18 **8 Pensiwn y Clerc - Auto Enrollment**

Fel Cyflogwr mae yn ddyletswydd i gyflogwyr gynnig pensiwn i'w gweithwyr. Mae HMRC wedi cadarnhau mai 1 Gorffennaf ydi dyddiad y mae rhaid i'r Cyngor hwn weithredu. Cadarnhad o'r sefyllfa fel y derbyniwyd gan Un Llais Cymru

Mae dyletswyddau cynghorau unigol mnew perthynas a phensiynau yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae cynghorau sydd yn cyflogi un person ar gyflog o £5842 neu lai y flwyddyn dan ddyletswydd i gynnig pensiwn i'r cyflogai yna DIM OND OS YDYN NHW YN GOFYN AM GAEL EU RHOI AR GYNLLUN PENSIWN, ac nid yw'n gorfod bod yn bensiwn dan y drefn "auto enrollment" (felly dydi'r cyngor ddim yn gorfod talu cyfraniadau). Os nad ydi'r cyflogai yna yn gofyn am gael ei roi ar gynllun pensiwn, yna does dim rhaid i'r Cyngor weithredu.

Os ydi'r un cyflogai sy'n gweithio i'r cyngor yn ennill rhwng £5842 a £10,000 y flwyddyn, yna byddai angen i'r cyngor roi'r cyflogai hwnnw ar gynllun pensiwn "auto enrollment" DIM OND OS YDI'R CYFLOGAI YN GOFYN AM GAEL EU RHOI AR GYNLLUN PENSIWN. Os nad ydi'r cyflogai yn gofyn am gael ei roi ar gynllun pensiwn, yna does dim rhaid i'r Cyngor weithredu.

I sicrhau fod y cyngor yn gwneud fel y dylai o safbwynt y drefn yma, rydw i'n argymhell i chi ddefnyddio adnodd gan y Rheoleiddwr Pensiynau drwy'r linc canlynol: <http://www.thepensionsregulator.gov.uk/cy/employers/>. <<http://www.thepensionsregulator.gov.uk/cy/employers/>>Bydd hyn yn galluogi i chi wirio beth ydi dyletswyddau'r cyngor drosoch chi mewn perthynas a phensiwn. Os yw'r canlyniad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor wneud unrhyw beth, yna, mae angen hysbysu'r Rheoleiddwr Pensiwn o hynny.

Penderfynwyd ar y canlynol

- i) Cynnig i'r Clerc ymuno a chynllun pensiwn**
- ii) Derbyn nad yw y Clerc am ymuno a chynllun penswin y tro hwn**

16-05-19 **9 Cyngor Gwynedd - Cytundeb Cynnal Llwybrau Cyhoeddus**

Derbyniwyd gohebiaeth gan Adran Cynnal Llwybrau Cyngor Gwynedd yn datgan -

- Grant 2016-17 ar sail 80% o gyfartaledd grant am y pum mlynedd diwethaf felly £1,200.00 fydd grant y byddwn yn ei dderbyn eleni.
- Dim sicrwydd am unrhyw geiniog y flwyddyn nesaf a thu hwnt

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Derbyn y wybodaeth gan fod y Cyngor wedi gweithredu'r gyllideb eleni heb ddisgwyl grant**

- ii) **Cyfeirio'r mater i Bwyllgor Mynwentydd ac Eiddo gan ddisgwyl i'r Pwyllgor dderbyn y wybodaeth wrth lunio'r cytundeb cynnal llwybrau sydd yn cychwyn yn 2017.**

16-05-20 **10 Materion a Godwyd gan Aelod**

Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon

Llwybr Cae Iago, y Groeslon

Mater wedi codi gan Cyng. Alun Wyn Jones

Adroddwyd fod cyflwr y llwybr, am oddeutu 30 medr, ger Garreglwyd, mewn cyflwr drwg iawn. Mae'r llwybr yn culhau i droedfedd o led, a hyn gyferbyn a ffoes. Sawl cwyn wedi ei dderbyn, gan fod y llwybr yn un hynod o brysur gan drigolion y Groeslon. Yn sgil y ffaith fod gan y Cyngor dros £2000 o danwariant hen ymrwymiad iddo gofynnir i'r Cyngor am gefnogi'r syniad o uwchraddio hwyneb y llwybr. Byddai hynny yn golygu darpariaeth ar gyfer y ffoes hefyd.

Sylwadau Aelodau

Cyng. Gerwyn Owen - yn cefnogi'r syniad 100%

Cyng. Robert Silyn Jones - awgrymu i'r Cyngor bwyllgo cyn ymrwymo arian gan mai megis cychwyn mae'r flwyddyn ariannol newydd

Cyng. Gwyn Owen Jones – cytuno gyda RSJ fod angen blaenoriaethu gwariant

Cyng. Dyfed Williams – angen i'r Cyngor ystyried system sgorio wrth flaenoriaethu

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) ***Fod Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo yn cynnwys y cais ar y Rhestr Blaenoriaethau ac yn dod ac argymhellion gerbron y Cyngor***

16-05-21 **11 Cyng. Eric M Jones**

Cynnig gan gan Cyng. Gerwyn Owen fod y Cyngor hwn yn anfon llythyr i Cyng. Eric Jones i'w longyfarch ar ei benodiad fel Cadeirydd Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd derbyn y cynnig

16-05-22 **12 Ceisiadau Cynllunio - Ceisiadau Mai 2016**

16-05-23 **C16/0399/17/LL**

Cae Ymryson, Carmel LL54 7AS

Cais ar gyfer codi modurdy

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-05-24 **C16/0422/17/LL**

Rhoslan, Groeslon LL54 7EB

Ail gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd i gynnwys dymchwel adeiladau allanol presennol a chdi estyniadau deulawr ar ochr a chefn yr eiddo a chodi modurdy /gweithdy ar wahân.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-05-25 **C16/0391/17/LL**

Morfa Mawr, Dinas Dinlle LL54 7TP

Cais i drosi adeilad allanol i weithdai gwledig.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-05-26 **C16/0337/17/LL**

Ysgol Bronyfoel, Y Fron LL54 7BB

Cais ar gyfer newid defnydd, estynnu a gwneud newidiadau allanolsy'n cynnwys gosod paneli solar o'r cyn Ysgol Gynradd i greu Canolfan Gymunedol, hostel/bunkhouse 16 gwely, caffi, siop, Ardal newid allanol, ystafelloedd cyfarfod/deor busnes ystafell triniaeth/Application for the change of use, extension and alterations of the former primary school, which includes provision of solar panels, and use as community centre and 16 bed hostel/bunkhouse, cafe, shop, outdoor changing facilities, meeting rooms/business incubation unit and treatment room.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

Materion Ariannol

16-05-27 **13 Derbyniadau i 30 Ebrill 2016**

Manylion	Cyfanswm
HMRC - Ad-daliad TAW	£856.60

16-05-28 **14 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -**

Manylion	Swm heb TAW	Cyfanswm y Taliad	Rhif Siec
Cyflog y Clerc - Mai 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Mai 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc - Mai 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol
Meirion Davies - Giat Cae Chwarae Ysgol Carmel	£400.00	£480.00	

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor

Dyddiad -

